CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dydd Iau, 29 Mehefin 2017

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Churchman – Cyngor Gwynedd (Cadeirydd)

Y Cyng. Elwyn Williams - Cyngor Sir Caerfyrddin;
Y Cyng. Clive Lloyd - Dinas a Sir Abertawe;
Y Cyng. Chris Weaver - Dinas Caerdydd;
Y Cyng. David Hughes - Cyngor Sir y Fflint;
Y Cyng. Peter Lewis - Cyngor Sir Powys;
Y Cyng. Mark Norris - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
Y Cyng. Glyn Caron - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen;

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:-

Jeff Dong - Dirprwy Swyddog Adran 151, Cyngor Dinas a Sir Abertawe,
Dafydd Edwards - Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd;
Philip Latham - Rheolwr y Gronfa Bensiwn, Cyngor Sir y Fflint;
Chris Lee - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
Chris Moore - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Caerfyrddin;
Linda Rees Jones - Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, Cyngor Sir Caerfyrddin;
Graeme Russell - Pennaeth Pensiynau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen;
Gary Watkins - Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw, Cyngor Dinas Caerdydd
M.S. Davies - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin

Hefyd yn bresennol

John Wright - Hymans Robertson.

Ystafell Pwyllgorau 4, Neuadd y Sir, Cyngor Dinas Caerdydd - 10.00 a.m. – 11.05 a.m.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANNAU

Y Cynghorydd	**Y Math o Fuddiant**
G. Caron	Aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol;
S. Churchman	Aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol;
M. Norris	Aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol;
C. Lloyd	Aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol;
E. Williams	Aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol.

3. PENODI CADEIRYDD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd Stephen Churchman yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2017/18.

4. PENODI IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd Mark Norris yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2017-18.

5. SWYDDOGAETHAU A CHYLLIDEB YR AWDURDOD CYNNAL

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad oedd yn manylu ar swyddogaethau'r awdurdod cynnal [Cyngor Sir Caerfyrddin] a'r gyllideb ddangosol i weinyddu'r bartneriaeth. Pwysleisiwyd ei bod yn anodd llunio'r gyllideb, a oedd yn debygol o newid dros amser, gan nad oedd y meysydd gwaith a'r llif gwaith gwirioneddol yn hysbys eto a bod hynny'n wir yn achos galwadau a gofynion y Pwyllgor hefyd. Byddai'r gyllideb, yn unol â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau, yn cael ei chyllido'n gyfartal gan yr 8 awdurdod lleol sy'n cymryd rhan.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

5.1 nodi swyddogaethau'r awdurdod cynnal;

5.2 nodi'r gyllideb ddangosol am y cyfnod 2017-2020.

6. AMSERLEN AR GYFER PENODI GWEITHREDWR AC ADRODDIAD CYNNYDD

Rhoddodd John Wright, Hymans Robertson, amlinelliad i'r Pwyllgor o gyd-destun a chefndir cyfuno buddsoddiadau ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol, gan gynnwys trefniadau mewn ardaloedd eraill, a chyflwynodd adroddiad oedd yn cynnwys amserlen ar gyfer penodi Gweithredwr a'r cynnydd yn hynny o beth. Yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 18 Medi 2017 rhagwelwyd y byddai'r aelodau yn ystyried argymhelliad gan y Gweithgor Swyddogion ynghylch y Gweithredwr a ffefrir ar gyfer y Cyd-bwyllgor Llywodraethu, cyn cael ei gymeradwyo ar lefel leol gan yr awdurdodau unigol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch sut y byddai'r Gweithredwr, ar ôl ei benodi, yn ymgysylltu â phwyllgorau pensiwn yr 8 awdurdod lleol yn unigol, dywedodd John Wright fod rhwymedigaeth wedi'i chynnwys yng nghontract y Gweithredwr i gynnal cyfarfodydd chwarterol gyda'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ac un cyfarfod gyda phob awdurdod lleol neu eu pwyllgor cronfa bensiwn. Yn ogystal roedd y contract yn darparu ar gyfer un sesiwn hyfforddiant bob blwyddyn ar gyfer pob awdurdod lleol. O ran dadfuddsoddi o'r man lle roedd y cronfeydd yn cael eu cadw ar hyn o bryd a'u trosglwyddo i gronfa'r Gweithredwr rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod hyn yn debygol o gymryd ychydig o flynyddoedd a byddai angen cynllunio pontio'n ofalus. Yn y cyswllt hwn nodwyd bod y Grŵp Trysoryddion wedi sefydlu gweithgor swyddogion i ystyried y trefniadau pontio o ran cynllunio a rhannu costau hefyd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r amserlen ar gyfer penodi'r Gweithredwr ynghyd â chynnydd y prosiect.

7. CYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad oedd yn rhoi manylion am gylch gwaith a gweithdrefnau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu, fel y nodwyd yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau a gytunwyd gan bob un o'r 8 awdurdod lleol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cylch gwaith a gweithdrefnau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu, fel y nodwyd yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau, yn cael eu cymeradwyo.

8. NODIADAU CYFARFODYDD Y GWEITHGOR SWYDDOGION

Roedd nodiadau cyfarfodydd diweddar y gweithgor swyddogion wedi cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor a rhoddwyd gwybod iddynt am y materion oedd wedi cael eu trafod. Nodwyd y byddai unrhyw faterion y nododd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu fod angen ymchwilio ymhellach iddynt yn cael eu cyfeirio at y gweithgor swyddogion.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

8.1 bod nodiadau cyfarfodydd y gweithgor swyddogion a gynhaliwyd ar 10 Mai 2017 a 16 Mehefin 2017 yn cael eu derbyn;

8.2 bod y geiriad 'Partneriaeth Pensiwn Cymru' yn cael ei gadarnhau fel enw'r trefniadau cyfuno pensiynau yng Nghymru;

8.3 ystyried y posibilrwydd o aildrefnu cyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a oedd i'w gynnal ar 20 Rhagfyr 2017 oherwydd nad yw rhai aelodau ar gael ar y dyddiad hwnnw.

_____ Y CADEIRYDD

_____ Y DYDDIAD